# CYNGOR CYMDEITHAS RHOSCOLYN
## (RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL)

COFNODION CYFARFOD RHITHIOL 10fed AWST 2021

Presennol: Cad. B THOMAS - Cyng. S. HANBURY, A.E. ROBERTS + CyngSir. T. Ll. HUGHES + D. RH. THOMAS
Ymddiheuriadau: Cyn. I.T. JONES, G. PARRY, T. THOMPSON.
Derbyn Cofnodion.
Materion yn Codi - ATEB C.S.Y.M. - (1) DIM ARIAN I GAEL MAES PARCIO GER TAI CYNGOR RHOSCOLYN, OND CYNNIG GELLIR CYSYLLTU Â PENNAETH GWASANAETH TAI (2) BIN SBWRIEL WEDI EI SYMUD I'R TRAETH, GAN NAD OEDD LLAWER O DDEFNYDD OHONNO YN YR HEN LEOLIAD.

Cynllunio (1) 'NOOK' - DYMCHWEL A CHODI ANNEDD NEWYDD - GWRTHWYNEBU AR SAIL MAINT YR ADEILAD NEWYDD, HEFYD BYDDAI TY DAU LAWR YN ANADDAS I'R ARDAL GAN MAI 'BYNGALOS' YW'R RHAN FWYAF O'R TAI CYFAGOS - DIM FFITIO CYMERIAD Y RHAN YMA O'R BONT.
(2) 'PLAS UCHAF' - ADDASU AC EHANGU - UNWAITH ETO CWYNO AM FAINT YR ADEILAD NEWYDD, BRON I DDWBL Y GWREIDDIOL. ALLAN O GYMERIAD, LLEOLIAD AR DIR UCHEL, AR Y GORWEL - I'W WELD O BELL, SEFYLL ALLAN, ANHARDDU'R ARDAL.

Gohebiaeth (1) HYSBYSU'R BWRIAD I GAU LÔN RHOSCOLYN AR 16 AWST (OPENREACH)
(2) YMATEB I'R "FFERMYDD SOLAR" - AMAU'R BUDD LLEOL, CWMNIAU ALLANOL YN GYFRIFOL - DYLID TALU SYLW ARBENNIG I YMATEB ARDALOEDD A THRIGOLION LLEOL, LLE BWRIEDIR SEFYDLU'R FFERMYDD.
(3) LLYTHYR "COED TIR TREARDDUR WOODLAND" - CYSYLLTU Â MR. EAGAR, YN CEFNOGI'R EGWYDDOR OND PRYDERON AM EI YMARFEROLDEB.

Materion Lleol
(1) PROBLEM CEIR PARCIO DROS NOS O FLAEN YR EGLWYS AC YN YR AROSFAN GER Y NEUADD + GADAEL SBWRIEL. GOFYN I CSYM. AM ARWYDD GWAHARDD PARCIO DROS NOS.
(2) CYFLWR LON GER 'PWLL PREBAN' - TYLLAU GWAETHAF ER YMDRECHION I'W LLENWI CYNG. D. RHYS THOMAS DWEUD FOD ARIAN WEDI EI GLUSTNODI I WELLA FFORDD RHOSCOLYN.
(3) GREG PALMER WEDI CYTUNO I DORRI MWY AR Y LLWYBRAU.
(4) LLWYBR ARFORDIR - RHAN O'R BOARDWALK WEDI TORRI, LLWYBR RHWNG Y BONT A RHYDYBONT
(4) ANGEN TORRI'R DRAIN AR OCHR Y FFORDD GER GWAELOD LON 'REFAIL FARM'.
(5) PRYDER AM GARTHFFOSIAETH YN GOLLWNG I'R AFON YN RHOSCOLYN (PIBELL O'R TAI CYNGOR
(6) ANGEN CADW LLYGAID AR Y LLITHRFA GER Y BONT - PERCHNOGION Y TAI YN GOSOD BOLLARDS AR ADEGAU I ATAL POBL FYND LAWR - DIM HAWL GANDDYNT.

BW [signature]